**Rhif: 4**

| | |
| --- | --- |
| **Cais Rhif:** | **C22/0788/03/MW** |
| **Dyddiad Cofrestru:** | **31/08/2022** |
| **Math y Cais:** | **Mwynau** |
| **Cymuned:** | **Ffestiniog** |
| **Ward:** | **Ffestiniog** |
| **Bwriad:** | **Cais ar gyfer gweithio tomen gwastraff llechi er mwyn creu stoc ar gyfer ei brosesu mewn gwaith/ffatri mwynau** |
| **Lleoliad:** | **Chwarel Lechi Ffestiniog, Talywaenydd, Blaenau Ffestiniog, Gwynedd, LL41 3ND** |
| **Crynodeb o'r Argymhelliad:** | **CANIATÁU GYDAG AMODAU** |

**1. Disgrifiad:**

1.1 Cais ar gyfer gweithio tomen gwastraff llechi er mwyn creu stoc ar gyfer ei brosesu mewn gwaith/ffatri mwynau. Saif tomen Bryntirion o fewn Chwarel Lechi Ffestiniog sydd i'r gogledd orllewin o dref Blaenau Ffestiniog. Gellir cael mynediad i'r chwarel gyda cherbyd o Gefnffordd yr A470, sydd tua 150m i'r gogledd o Dai Oakeley.

1.2 Lleolir y domen ei hun ym mhen mwyaf gogleddol Chwarel Lechi Ffestiniog, gyda Llyn Ffridd y Bwlch yn union i'r gogledd, Bryn Tirion (annedd) a'r A470 i'r dwyrain, y gwaith mwynau presennol ac ardaloedd (o wastraff llechi) sydd wedi eu clirio o'r blaen i'r de gyda thir mynyddig yn codi i'r gorllewin.

1.3 Mae'r ymgeisydd yn gweithredu gwaith mwynau sy'n prosesu gwastraff llechi o domennydd i llechi y Ffridd a Bryntirion i gynhyrchu cynhyrchion llechi gronynnog. Mae rhan ddeheuol y domen eisoes wedi cael ei gweithio fel rhan o ganiatâd cynllunio C10M/0103/03/MW (ehangwyd yr amser wedyn dan C20/0079/03/AC). Caiff y deunydd ei symud o'r domen gan duriwr â thrac (*tracked excavator*) a'i fwydo i falwr symudol a hopran fwydo (*feed hopper*) cyn ei drosglwyddo i'w sychu a'i falu i'r gwaith ar gludfelt.

1.4 Defnyddir y cynnyrch gronynnog neu bowdr yma yn bennaf ar gyfer deunyddiau adeiladu fel ffelt to, bitwmen llechi artiffisial, pryfladdwyr, paent, resinau, haenau pibellau, ffeltiau to a chwrs lleithder, corff cerbydau dan sêl, teils terazzo a phlastigion neu bydd yn cael ei gludo ar y ffordd fel agregau eilaidd.

1.5 Daw'r angen am y cais o ganlyniad i'r pentwr cyfyngedig wrth gefn sydd ar ôl yn y tomennydd sydd eisoes wedi cael caniatâd i gael ei weithio. Amcangyfrifir bod tua 520,000 tunnell o ddeunydd wrth gefn yn ardal y cais a byddai hyn yn sicrhau bod gan y gwaith mwynau gyflenwad parhaus o ddeunydd am bum mlynedd.

1.6 Mae'r ymgeisydd wedi cyflwyno Adroddiad Llwytho Arwyneb, Datganiad Iaith Gymraeg ac Asesiad Effaith Treftadaeth yn ogystal â dogfennau sy'n ymwneud â'r dirwedd ac effeithiau gweledol, sŵn, ansawdd aer, yr amgylchedd dŵr a threftadaeth ddiwylliannol.

1.7 Nid yw'r cais yn golygu datblygiad fel a nodwyd yn Atodlen 1 Rheoliadau Gwlad a Thref (Asesiad Effaith Amgylcheddol) (Cymru) 2017, gan bod ardal y datblygiad yn syrthio y tu allan i drothwy ardal y safle o 25ha. Er hynny, mae'r datblygiad yn syrthio o fewn y disgrifiad o ddatblygiad sydd wedi'i nodi ym Mharagraff 2, Atodlen 2 y Rheoliadau EIA, 'Diwydiant Cloddiol, Chwareli, mwyngloddio brig a chodi mawn'. Ystyriodd barn sgrinio'r awdurdod dyddiedig 05/09/2022 (cyfeirnod C22/0809/03/SC) yr holl ystyriaethau amgylcheddol perthnasol a chasglodd, o ystyried graddfa ac effaith y cynigion datblygu, nad oedd angen Asesiad Effaith Amgylcheddol.

**2. Polisïau Perthnasol:**

2.1 Mae Adran 38(6) Deddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004 a pharagraff 2.1.2 Polisi Cynllunio Cymru yn pwysleisio y dylid penderfynu ar geisiadau cynllunio yn unol â'r Cynllun Datblygu, oni bai bod ystyriaethau perthnasol yn nodi fel arall. Mae ystyriaethau cynllunio yn cynnwys y Polisi Cynllunio Cenedlaethol a'r Cynllun Datblygu Lleol.

2.2 Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn rhoi dyletswydd ar y Cyngor i ymgymryd â chamau rhesymol wrth arfer ei swyddogaethau i gyflawni'r saith nod llesiant sydd yn y Ddeddf. Mae'r adroddiad hwn wedi'i baratoi gan ystyried dyletswydd y Cyngor a'r

'egwyddor datblygu cynaliadwy', fel sydd wedi'i nodi yn Neddf 2015. Wrth ffurfio'r argymhelliad, mae'r Cyngor wedi ceisio sicrhau bod anghenion y presennol yn cael eu diwallu heb beryglu gallu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion hwythau.

2.3 **Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd Gwynedd ac Ynys Môn 2011-2026 a fabwysiadwyd ar 31 Gorffennaf 2017**

- PS1: Yr Iaith Gymraeg a'i diwylliant
- PS 4: Trafnidiaeth gynaliadwy, datblygiad a hygyrchedd
- TRA 4: Rheoli ardrawiadau cludiant
- PCYFF 1: Ffiniau Datblygu
- PCYFF 2: Meini Prawf Datblygu
- PCYFF 3: Dylunio a siapio lle
- PCYFF 4: Dylunio a thirweddu
- PS 5: Datblygiad cynaliadwy
- PS 13: Darparu cyfleoedd ar gyfer economi ffyniannus
- AMG 5: Cadwraeth Bioamrywiaeth Leol
- AT 1 (STyB Llechi): Ardaloedd Cadwraeth, Safleoedd Treftadaeth y Byd a Thirweddau Cofrestredig, Parciau a Gerddi (Tirwedd Llechi)
- PS 20: Cadw a lle bo'n briodol gwella asedau treftadaeth
- MWYN 1: Diogelu adnoddau mwynau
- MWYN 3: Datblygiadau Mwynau
- MWYN 5: Cylchfeydd Rhagod o amgylch Safleoedd Mwynau
- MWYN 9: Adfer ac ôl-ofal
- PS 22: Mwynau

Canllawiau Cynllunio Atodol (CCA): Safle Treftadaeth y Byd Tirwedd Llechi Gogledd Orllewin Cymru

2.4 **Polisïau Cenedlaethol:**

Cymru'r Dyfodol: Y Cynllun Cenedlaethol 2040

Polisi Cynllunio Cymru (Argraffiad 11 - Chwefror 2021)

• Nodyn Cyngor Technegol 5: Cadwraeth Natur a Chynllunio

• Nodyn Cyngor Technegol 11: Sŵn

• Nodyn Cyngor Technegol 18: Trafnidiaeth

• Nodyn Cyngor Technegol 20: Cynllunio a'r Iaith Gymraeg

• Nodyn Cyngor Technegol 23: Datblygiad Economaidd

• Nodyn Cyngor Technegol 24: Yr amgylchedd hanesyddol

• Nodyn Cyngor Technegol Mwynau (MTAN) Cymru 1: Agregau

**3. Hanes Cynllunio Perthnasol:**

- Prydleswyd ardal y cais presennol gan OMYA oddi wrth Alfred McAlpine Slate Limited yn 1997, wedi iddynt brynu'r cyfan o chwarel Ffestiniog. Dechreuodd hanes cynllunio'r safle gyda Chaniatâd Tybiedig a wnaed ar 12 Ebrill 1989 dan ddarpariaethau Rhan 23 Gorchymyn Datblygu Cyffredinol 1988 i Symud Deunydd o Ddyddodyn Gwaith Mwynau.
- Wedi hynny, caniatawyd Caniatâd Cynllunio amodol 5/59/240 ar 8 Chwefror 1990 i 'osod Gwaith Prosesu Llechi'.
- Ar 12 Mawrth 1991 cyflwynwyd cais pellach cyfeirnod 5/59/240A gan y cyn weithredwr Mri Redland Aggregates Ltd, i amrywio Amodau 5 a 6 oedd yn atodol i Ganiatâd Cynllunio 5/59/240 i lacio'r oriau gwaith a chynyddu nifer symudiadau cerbydau. Gwrthodwyd y cais hwn ar 18 Mehefin 1991.
- Roedd cyfeirnod cais C00M/0011/03/MW yn ddarostyngedig i Asesiad Effaith Amgylcheddol a chymeradwywyd caniatâd cynllunio yn ddarostyngedig i amodau ar 23 Medi 2002.
  Mae'r cynigion wedi eu canoli ar weithfeydd presennol Chwarel Ffestiniog/Gloddfa Ganol a gafodd eu cyfuno wedi iddynt gael eu caffael ar y cyd yn 1997 gan Alfred McAlpine Slate Products. Mae’r caniatâd am gyfnod cyfyngedig a ddaw i ben ar 31ain Rhagfyr 2025 sy'n golygu cyfuno a helaethu gwaith chwarela arwyneb i gael mynediad at bileri o lechi mewn gwaith tanddaearol sydd wedi'i adael sy'n cynnwys ardal sy'n amodol i ganiatâd blaenorol a roddwyd yn amodol yn 1988.
- Ym mis Mai 2001, ceisiodd OMYA gael caniatâd i reoleiddio terfyn y safle oedd wedi ei ymestyn y tu hwnt i ardal Caniatâd Cynllunio 5/59/240. Ar yr un pryd fe geisiwyd cael caniatâd cynllunio ôl-weithredol i godi sied storio a llawr caled ar y safle. Cyflwynwyd caniatâd cynllunio cyfeirnod C01M/0014/03/MW ar 5 Gorffennaf 2001.
- Caniatawyd Cais Cynllunio C03M/0010/03/MW ar 18 Mehefin 2001 i amrywio Amodau 4, 5 a 6 o Ganiatâd Cynllunio 5/59/240 i ganiatáu gweithio 24 awr.
- Cais am dystysgrif ar gyfer defnydd cyfreithlon, cyf. C06M/0090/03/TC, Fferm Bryntirion, i gadw gweithdy cynnal a chadw cerbydau, storfa a swyddfa a defnyddio tir i barcio cerbydau masnachol. Er hynny, gwrthodwyd y cais ar 5ed Rhagfyr 2007 oherwydd na chafodd tystysgrif perchnogaeth ei chyflwyno.
- Cymeradwywyd cais cynllunio cyf. C10M/0103/03/MW, yn ddarostyngedig i amodau ar 29 Tachwedd 2010, i reoleiddio unrhyw weithio deunyddiau o'r dyddodion gwaith mwynau. Tomennydd llechi Bryntirion a'r Ffridd, Chwarel yr Oakeley, Blaenau Ffestiniog.
- C20/0066/03/AC ‘Cais o dan Adran 73 Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 i amrywio amod 1 ar ganiatâd cynllunio C01M/0014/03/MW (Rheoleiddio datblygiad heb ei awdurdodi - defnyddio tir i storio stoc bwydo'r gwaith; codi sied storio; man caled i storio paledau a llwytho), i ganiatáu parhau gyda gweithrediad busnes sefydledig - caniatawyd ar 23/07/2020.
- C20/0067/03/AC ‘Cais o dan Adran 73 o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref i amrywio amod 1 ar ganiatâd cynllunio C03M/0010/03/MW (cais i ddatblygu tir heb gydymffurfio gydag amodau 4, 5 a 6 ar ganiatâd cynllunio 5/59/240 dyddiedig 08/02/1990), i ganiatáu i barhau gyda gweithrediad busnes sefydledig - caniatawyd ar 16/07/2020.
- C20/0079/03/AC ‘Cais o dan Adran 73 o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref i amrywio amod 1 ar ganiatâd cynllunio C10M/0103/03/MW (Rheoleiddio ac adfer yn y dyfodol ddeunydd o'r dyddodyn gwaith mwynau) i ganiatáu ar gyfer parhau gweithrediad busnes sefydledig - Caniatawyd ar 28/07/2020.

**4. Ymgynghoriadau:**

| | |
|---|---|
| Cyngor Cymuned: | Derbyniwyd ymateb ar 29/09/2022:<br><br>Mae'r Cyngor Tref yn cefnogi'r cais hwn ar yr amod y bydd yn creu cyflogaeth yn yr ardal a bod y cwmni yn ymateb i'r pryderon isod:<br><br>Fodd bynnag, mae gan y Cyngor Tref bryderon difrifol am lygredd, yn enwedig yr arogl sy'n deillio o'r peiriannau a ddefnyddir yn y chwarel yn ogystal ag adfer y dirwedd a lefelau llwch.<br><br>Ysgrifennodd Cyngor y Dref at Breedons am y pryderon hyn a derbyniwyd ateb yn dweud y bydd offer newydd yn cael ei osod i ddileu'r arogl gan ostwng lefel y llwch yn sylweddol.<br><br>Hoffai'r Cyngor Tref wybod os yw'r offer newydd wedi cael ei osod a pha drefn sydd yn ei lle i fonitro'r llygredd. |
| Yr Uned Drafnidiaeth: | Derbyniwyd ymateb ar 20/09/2022:<br><br>Nodaf fod y cais yma yn ymwneud â datblygiad arfaethedig ger Cefnffordd yr A470, ac o ganlyniad yr unig sylw y medraf ei gynnig yw - nid oes gennyf unrhyw bryderon am yr effaith bosib ar ran fechan o'r ffordd ddi-ddosbarth sy'n arwain at Dai Oakeley. |
| Uned Hawliau Tramwy Cyhoeddus: | Derbyniwyd ymateb ar 22/09/2022:<br><br>Cyfeiriaf at y cais uchod. Nid yw'n ymddangos bod unrhyw Hawliau Tramwy a gofnodwyd yn cael eu heffeithio gan y bwriad yma. |
| Uned Draenio Tir a Risg Llifogydd Cyngor Gwynedd (FCMRU): | Derbyniwyd ymateb ar 20/09/2022:<br><br>Ar ôl adolygu'r cais ni ddarparwyd unrhyw sylwadau gan yr uned ar ddraenio tir, risg llifogydd lleol nac erydu. |
| Cyfoeth Naturiol Cymru: | Derbyniwyd ymateb ar 20/09/2022:<br><br>Diolch am ymgynghori gyda Chyfoeth Naturiol Cymru am yr uchod, a dderbyniwyd gennym ar 2 Medi 2022. Nid oes gennym unrhyw wrthwynebiad i'r datblygiad arfaethedig fel a gyflwynwyd a darparwn y cyngor a ganlyn.<br><br>Atal Llygredd<br><br>Rydym yn cydnabod derbyn Datganiad Cynllunio (Cyf SLR: 403.06559.00027 Fersiwn Rhif: Terfynol, Awst 2022). Yn amodol i'r mesurau atal llygredd safonol, rydym yn cytuno na fyddai'r gwaith o symud dyddodion mwynau ddim yn debygol o achosi effeithiau amgylcheddol sylweddol. Rydym hefyd yn cydnabod o'r Datganiad |

Cynllunio y byddai'r datblygiad arfaethedig yn draenio i brif system ddraenio bresennol y Chwarel.

Tirwedd a Gweledol

Lleolir y bwriad 700 metr o Barc Cenedlaethol Eryri. Ystyriwn fod y bwriad yn annhebygol o effeithio ar nodweddion arbennig y Parc Cenedlaethol, er hynny rydym yn eich cynghori i gyd-gysylltu gyda'ch ymgynghorwyr tirwedd am unrhyw effeithiau lleol ar y tirlun, yn cynnwys unrhyw argymhellion adfer.

Rhywogaethau wedi eu Gwarchod

Nodwn nad oes unrhyw wybodaeth ynghylch rhywogaethau gwarchodedig gyda'r cais. Ystyriwn fod y bwriad yn annhebygol o effeithio ar rywogaethau gwarchodedig, er hynny rydym yn eich cynghori i gyd-gysylltu gyda'ch ecolegydd am unrhyw effeithiau ar rywogaethau lleol pwysig ac eto unrhyw argymhellion adfer.

Materion Eraill

Mae ein sylwadau uchod yn ymwneud yn benodol â materion sydd wedi'u cynnwys ar ein rhestr wirio yn unig, Gwasanaeth Ymgynghorol Cynllunio Datblygu: Pynciau Ymgynghori (Medi 2018), sydd wedi'i gyhoeddi ar ein gwefan. Nid ydym wedi ystyried yr effeithiau posib ar faterion eraill ac nid ydym yn diystyru'r posibilrwydd i'r datblygiad arfaethedig effeithio ar faterion eraill. Cynghorwn yr ymgeisydd, yn ogystal â chael chaniatâd cynllunio, mai ei gyfrifoldeb yw sicrhau ei fod yn cael pob hawlen/caniatâd /trwydded sy'n berthnasol i'r datblygiad. Cyfeiriwch at ein gwefan i gael rhagor o fanylion.

Dŵr Cymru:

Derbyniwyd ymateb ar 14/09/2022:
Cyfeiriwn at eich ymgynghoriad cynllunio ynghylch y safle uchod, ac fe allwn ddarparu'r sylwadau a ganlyn mewn perthynas â'r datblygiad arfaethedig. Ar ôl adolygu'r bwriad, mae'n ymddangos nad oes unrhyw gysylltiadau arfaethedig ar gyfer dŵr budr na dŵr wyneb i'r rhwydwaith garthffosiaeth gyhoeddus fel rhan o'r datblygiad arfaethedig. Felly, nid oes gan Dŵr Cymru unrhyw sylwadau i'w gwneud ar y cais.

Fodd bynnag, pe byddai amgylchiadau'n newid a bod cysylltu â'r system gyhoeddus/gwaith trin carthffosiaeth gyhoeddus yn cael ei ffafrio, byddai'n rhaid ail-ymgynghori â ni ynghylch y cais hwn.

Nodiadau Cynghori

Hysbysir yr ymgeisydd hefyd y gallai bod rhai carthffosydd cyhoeddus a draeniau ochrol heb gael eu cofnodi ar ein mapiau carthffosydd cyhoeddus gan eu bod yn wreiddiol mewn perchnogaeth

breifat ac wedi eu trosglwyddo i berchnogaeth gyhoeddus drwy natur Rheoliadau y Diwydiant Dŵr (Cynlluniau i Fabwysiadu Carthffosydd Cyhoeddus) 2011.

Gall presenoldeb asedau o'r fath effeithio ar y bwriad. Er mwyn ein cynorthwyo i ddelio gyda'r bwriad gall yr ymgeisydd gysylltu â Dŵr Cymru. Dan Ddeddf y Diwydiant Dŵr 1991 mae gan Ddŵr Cymru hawliau i gael mynediad i'w offer bob amser. Mae ein hymateb yn seiliedig ar y wybodaeth a ddarparwyd gan eich cais. Gofynnwn yn garedig, pe byddai'r bwriad yn newid yn ystod proses y cais, i chi ail-ymgynghori gyda ni a chadwn yr hawl i gyflwyno sylwadau o'r newydd.

Uned Gwarchod y Cyhoedd:

Derbyniwyd ymateb ar 23/09/2022:
Mae'r Gwasanaeth wedi asesu Pennod Sŵn ac Ansawdd Aer yr adroddiad (Cyf. SLR:403.06559.00027) oedd gyda'r cais Cynllunio ac mae gennym y sylwadau isod:

Sŵn
Mae'r Bennod hon yn nodi bod monitro sŵn wedi digwydd yn 2019. Mae'r canlyniadau yn dangos beth yw'r sŵn o'r Gwaith presennol ar y safle ac maent wedi eu cymharu gyda'r cyfyngiadau sŵn presennol ar ganiatâd cynllunio 2020. Ymddengys nad oes unrhyw wybodaeth am y lefelau sŵn arfaethedig ar gyfer y gwaith a fwriedir o symud llechi o Domen Bryntirion. Felly, ni wyddom os fydd gan y gweithgaredd arfaethedig effaith andwyol ar unrhyw drigolion cyfagos. Nid oes unrhyw wybodaeth am unrhyw sŵn cronnus o waith y safle presennol a'r safle cloddio newydd arfaethedig. Byddem wedi disgwyl i'r lefelau sŵn tybiedig fod wedi eu derbyn ar gyfer y cynnig newydd gan ddangos os fyddent yn cydymffurfio gyda'r cyfyngiadau sŵn presennol, nid yw paragraff yn datgan na fydd gwaith tomen Bryntirion yn newid yn sylweddol yn dderbyniol.

Rydym yn cynghori bod yr amodau sŵn sydd ar y caniatâd cynllunio presennol yn cael eu hymestyn i gynnwys y safle arfaethedig os yw'r cais yn cael ei gymeradwyo.

Ansawdd yr Aer
Nid oes gan y Gwasanaeth unrhyw sylwadau pellach i'w gwneud ar y Bennod Ansawdd Aer. Mae'n hanfodol bod y mesurau lliniaru a amlinellwyd yn adran 7, paragraffau 7.45 a 7.46 yn cael eu hamodi, a bod yr amodau llwch ar y caniatâd Cynllunio i'r safle yn cael eu hymestyn i gynnwys y safle arfaethedig.

Uned Bioamrywiaeth:

Derbyniwyd yr ail ymateb ar 17/01/2023:
Yn dilyn fy sylwadau ym mis Tachwedd 2022, mae'r ymgeisydd wedi ymateb gan ddweud y bydd y llain llystyfiant arbrofol yn bennaf y tu allan i'r ardal weithio a bydd yn parhau. Mae'r ymgeisydd wedi awgrymu y gallai mesurau i osgoi niwed i ymlusgiaid fod yn amod cynllunio i warchod y rhywogaeth yma. Rwyf yn fodlon gyda'r

wybodaeth yma a'r awgrymiadau.

Er hynny, argymhellaf yr amodau cynllunio isod:

• Cynllun Gwella Bioamrywiaeth - dylai hwn gynnwys creu gwâl i ddyfrgwn.

• Cynllun Rheoli Adferiad - mae'r ymgeisydd wedi darparu cynllun adfer (Tachwedd 2021) ac rwyf yn argymell bod coed yn cael eu plannu a bod adolygiad o'r safle yn cael ei gynnal ddwywaith y flwyddyn i rywogaethau ymledol nad ydynt yn gynhenid (e.e. coed mêl *buddleia*) gan eu rheoli a'u difa a bod adroddiad yn cael ei ddarparu bob blwyddyn i'r ACLl.  Dylai'r cynllun nodi bod y domen wedi'i hadfer yn cael ei ffensio i atal anifeiliaid pori rhag mynd ati.

Derbyniwyd yr ymateb cyntaf ar 06/12/2022:

Data'r safle

• Amrywiol gofnodion dyfrgwn o fewn 80 metr

• Cofnodion ymlusgiaid

• Lleiniau arbrofol i greu cynefinoedd mae'n debyg gan Brifysgol Bangor ac efallai yn 20 oed. Gweler y ffotograff isod.

Adroddiadau Ecoleg

• Dim wedi eu darparu

Rhaid darparu Asesiad Effaith Ecolegol.

Gwella Bioamrywiaeth

• Dim wedi eu darparu

Mae gan Gyngor Gwynedd fel pob corff cyhoeddus ddyletswydd i amddiffyn a gwella bioamrywiaeth dan adran 6 o Ddeddf Amgylcheddol (Cymru) 2016. Rhaid darparu cynllun gwella bioamrywiaeth addas. Rwyf yn argymell creu cynefin, plannu coed a chreu gwâl i ddyfrgwn.

Cynlluniau

Mae'r domen yn gorwedd uwchben twnnel rheilffordd Ffestiniog, sy'n eiddo i Network Rail.  Mae'r twnnel yn 140 oed, yn 3,530 m o hyd, yn rhedeg i'r gogledd o ger Pont Pant-yr-afon.  Mae'n debygol iawn fod ystlumod yn defnyddio'r twnnel yma a bywyd gwyllt gwarchodedig eraill e.e. dyfrgwn, er hynny bydd yn aros heb ei newid ac felly ni fydd yn effeithio ar unrhyw fywyd gwyllt yn y twnnel.

Effaith Bioamrywiaeth

Ychydig iawn o lystyfiant sydd ar y domen ac eithrio am y lleiniau arbrofol. Hoffwn gael mwy o wybodaeth am y lleiniau a'r niwed posibl iddynt.

Cofnodwyd fod dyfrgwn yn yr ardal, yn enwedig o gwmpas y llyn sydd 80 metr i ffwrdd, a dyma ble fyddant yn bwydo ar bysgod. Mae yn annhebygol y bydd y dyfrgwn yn cael eu heffeithio gan y gwaith arfaethedig.

Mae’n debyg y bydd ardal fach o lystyfiant yn cael ei cholli (cynefinoedd ucheldir/glaswelltir asid/gwaun/tir gwlyb, er hynny mae toreth o'r cynefinoedd hyn yn y cyffiniau.

Argymhellion

Darparwyd adroddiad ecolegol sy'n cynnwys gwybodaeth am golli cynefinoedd a mesurau i osgoi niwed i ymlusgiaid a rhywogaethau eraill.

Gwasanaeth Cynllunio Archeolegol Gwynedd:

Derbyniwyd ymateb ar 26/09/2022:
Diolch am ymgynghori gyda ni ar y cais uchod. Rwyf wedi darllen y wybodaeth a ddarparwyd gan gynnwys y datganiad treftadaeth a baratowyd gan Andrew Josephs Associates (Ebrill 2022). Ar ôl adolygu'r cais yn erbyn cofnod amgylchedd hanesyddol y rhanbarth, rwyf yn cytuno gyda chasgliadau y datganiad treftadaeth - h.y. er y gorgyffwrdd gyda Safle Treftadaeth y Byd (STyB) Tirwedd Llechi Gogledd Orllewin Cymru a ddynodwyd yn ddiweddar, ni fyddai gan y datblygiad arfaethedig unrhyw effaith sylweddol ar yr amgylchedd hanesyddol, oherwydd dyddiad diweddar y domen a effeithiwyd a chadw ymyl allanol Tomen Bryntirion, sy'n cadw cymeriad y dirwedd hanesyddol. Nodaf y posibilrwydd y gallai symud deunydd o'r domen yn y pendraw ddatgelu draen neu ffrwd sy'n arwain o gronfa ddŵr Llyn Ffridd-y-Bwlch. Fel nodwedd gynnar/ganol y bedwaredd ganrif ar bymtheg sy'n gysylltiedig â'r chwarel, mae yn rhan o'r dirwedd hanesyddol a diwydiannol ac os yw'n bodoli, ei bod yn cael ei gadw neu byddwn yn debygol o geisio cofnod ohono.

Er hynny, ar ben ei hun ychydig iawn o bwysigrwydd sydd iddo gydag ond ychydig o gapasiti i gynyddu dealltwriaeth neu werthfawrogiad, a fedrai gael ei niweidio gan waith tomennu diweddarach ac efallai na fydd yn agored. Yn wyneb hyn, ystyrir bod gofyniad lliniaru (fel brîff gwylio ar y camau hwyrach o symud deunyddiau) yn anghymesur a gall fod yn anymarferol ei orfodi. Yn unol â hynny, cynghorir nad oes unrhyw oblygiadau archeolegol sylweddol i'r cynigion ac ni argymhellir unrhyw waith archeolegol pellach ar hyn o bryd.

| | |
|---|---|
| | Peidiwch â phetruso i gysylltu â mi os oes gennych unrhyw ymholiadau am yr uchod. |
| Asiantaeth Cefnffyrdd Gogledd a Chanolbarth Cymru: | <u>Derbyniwyd yr ail ymateb ar 16/11/2022:</u><br>Cyfeiriaf at eich ymgynghoriad ar 09/11/2022 ynglŷn â'r cais cynllunio uchod ac fe'ch cynghorwn nad yw Llywodraeth Cymru, fel awdurdod priffyrdd ar gyfer cefnffordd yr A470, wedi cyhoeddi cyfarwyddyd mewn perthynas â'r cais hwn.<br><br><u>Derbyniwyd yr ymateb cyntaf ar 26/10/2022:</u><br>Diolch i chi am y wybodaeth atodol.<br><br>Yn ystod yr ymgynghoriad cyn-cynllunio, gofynnwyd bod gwerthoedd AADT presennol ac arfaethedig yn cael eu darparu ar gyfer mynediad i'r gefnffordd fel y medrem asesu'r effaith y gallai hyn ei gael ar y Rhwydwaith Ffyrdd Strategol. Nodaf fod yr ymgeisydd wedi darparu'r ymateb isod: "4.3 Llywodraeth Cymru Mae'r cynigion yn ymwneud â gweithio Tomen Bryntirion i ddarparu cyflenwad stoc i'r gwaith mwynau. Mae amodau cynllunio eisoes yn bodoli i gyfyngu symudiadau cerbydau ac ni fwriedir newid yr amodau hynny fel rhan o'r cais cynllunio. O'r herwydd ni ystyrir bod angen darparu ffigyrau AADT."  A oes modd i'r ymgeisydd ddarparu'r amod sy'n cyfyngu ar symudiadau cerbydau neu gadarnhau na fydd unrhyw gynnydd mewn symudiadau cerbydau drwy fynedfa y gefn ffordd o ganlyniad i'r bwriad, os gwelwch yn dda? |
| Network Rail: | <u>Derbyniwyd ymateb ar 23/03/2023:</u><br><br>Mae'r cais yn cyfeirio at ddraenio arwyneb helaeth sydd mewn lle gan y chwarel.<br><br>8.54 - '... Gan fod cyfran uchel o ddŵr ffo wyneb yn mynd o ddalgylch y chwarel (ble lleolir safle'r cais) yn llifo drwy sianeli sy'n ffurfio'r system rheoli dŵr wyneb bydd hyn yn osgoi unrhyw effaith ar ansawdd dŵr a all gael ei achosi trwy gynnydd mewn gwaddodion crog.'<br><br>Fodd bynnag, nid oes tystiolaeth weledol (ar ffurf mapiau, croestoriadau ac ati) i ddangos hyn a sut fydd y rhwydwaith draenio yma'n gweithredu i ostwng dŵr ffo wyneb rhag mynd tuag at siafft y twnnel.  O ystyried yr ymdreiddiad sylweddol i'r siafft mae angen deall y lleoliad ac effeithiolrwydd unrhyw ddraenio yn y cyffiniau.<br><br>Mae'r adroddiad yn rhoi sylw ar hydroleg cyffredinol yr ardal ond o wneud hyn nid yw'n ystyried topograffeg isel ble lleolir siafft y twnnel fel derbynnydd posib ar gyfer dŵr ffo.  Mae'n bryderus nad yw hyn wedi cael sylw, teimla Network Rail bod angen ystyried hyn o gofio am y newidiadau arfaethedig i'r amgylchedd oddi amgylch. |

Awgrymaf y byddai cyfarfod gyda'r partïon perthnasol yn ffordd ddefnyddiol i bawb drafod unrhyw amheuon sydd ganddynt hyd yma. Byddai hyn yn gyfle i ddangos sut y gellid datrys y materion sydd wedi eu codi yn gyson gan Network Rail.

Derbyniwyd yr ymateb ar 05/10/2022:
Diolch i chi am eich e-bost dyddiedig 8 Medi 2022 ynghyd â chyfle i roi sylwadau ar y bwriad.

Mae'r pwyntiau bwled isod yn sylwadau a wnaed mewn perthynas â'r ymgynghoriad cyn cyflwyno cais, ac mae'r sylwadau gan y tîm mwyngloddio wedi eu cynnwys yn erbyn y pwyntiau hyn, mewn coch, i adlewyrchu'r adolygiad o'r cais cynllunio sydd bellach wedi ei gyflwyno.

• Mae'r ymgynghoriad yn ymwneud â symud deunydd o'r domen i'w ail-brosesu o weithrediadau chwarel sy'n golygu tua 0.5Mt, dylai'r cais ddangos sut mae sefydlogrwydd y domen a'r cyffiniau yn cael ei gadw yn ystod y gwaith gan asesu effaith newidiadau o ran llwytho ar yr arwyneb ar y tir islaw ac asedau Network Rail. I gyd yn unol â'r ddeddfwriaeth, codau ymarfer ac ati. Mae asesiad o'r fath wedi ei gwblhau a'i gyflwyno yn rhannol gyda'r ymgynghoriad, er hynny, gofynnwn am yr adroddiad cyfan er mwyn llunio barn nid dim ond y rhan a gyflwynwyd.

• Dylai'r cais ddangos sut fydd y tirffurf gorffenedig yn cael ei lunio a sut fydd sefydlogrwydd yn cael ei sicrhau drwy'r amser. Nid oes disgrifiad o'r fath yn y cais.

• Dylai'r cais ddangos sut fydd y llwch a gynhyrchir yn cael ei reoli yn ystod y gwaith i liniaru risgiau i Network Rail gan nodi presenoldeb siafftiau aer ar y safle a'r angen i gael mynediad i'r safle i weithwyr a chontractwyr. Nid yw'r siafft aer yn cael ei gydnabod fel derbynnydd er ei fod yn agosach at y gwaith na rhai derbynyddion eraill sydd wedi eu hadnabod, dylid gwerthuso'r twnnel fel derbynnydd.

• Dylai'r cais roi tystiolaeth bellach sut y bydd y dŵr ffo wyneb yn cael ei reoli ar y safle, tra fo'r gwaith yn mynd rhagddo, ac ar ôl adfer, gan y deallir bod bwriad i adael dŵr i lifo i'r ceudwll chwarel a adawyd sydd hefyd yn cael ei fwydo drwy gyswllt gyda gwaith mwyngloddio cyfagos cyn caniatáu i ryddhau trwy geuffordd tuag at y rheilffordd. Bydd angen i'r isadeiledd y dibynnir arno i gael ei archwilio a'i gynnal a'i gadw yn ystod y gwaith ac mae hyn yn angenrheidiol i amddiffyn isadeiledd Network Rail rhag ansefydlogrwydd a llifogydd. Mae tystiolaeth bod llif dŵr wyneb wedi golygu bod dŵr a llaid yn treiddio i'r twnnel oddi-tanodd, a dyma pam y pryder a'r sylw yma. Nid yw hyn wedi ei drin yn benodol yn y cais gyda'r cynsail yn cael ei wneud bod y gwaith fel sy'n bodoli gan beidio â chydnabod y materion blaenorol o ran dŵr

wyneb yn mynd i'r twnnel drwy'r siafftiau aer.

• Mae'r ymgynghoriad yn adnabod bod dŵr wyneb eisoes yn llifo o dan y domen bresennol, dylai'r cais ddangos sut fydd hyn yn cael ei reoli i atal unrhyw effaith ar isadeiledd a sefydlogrwydd asedau Network Rail. Nid yw hyn yn cael ei drin yn y cais.

• Dylid ystyried effeithiau newid yn yr hinsawdd ynghyd â'r holl bwyntiau bwled blaenorol. Nid oes unrhyw asesiad o oblygiadau dŵr wyneb yn llifo a chapasiti'r system.

Oherwydd yr uchod, gofynnwn ein bod yn dal gwrthwynebiad (*holding objection*) hyd nes y cyflwynir rhagor o wybodaeth fel yr amlinellwyd ym mhwynt bwled 1.

Gofynnwn ein bod yn dal gwrthwynebiad hyd nes fo Network Rail yn fodlon ei bod wedi derbyn atebion o ran y pwyntiau bwled eraill gan fod y risgiau i Network Rail heb gael eu hasesu neu eu rheoli o fewn y cais.

CADW:

Derbyniwyd ymateb ar 23/09/2022:

Diolch ichi am eich llythyr dyddiedig 2 Medi yn gwahodd ein sylwadau ar y wybodaeth a gyflwynwyd ar gyfer y cais cynllunio uchod.

Cyngor

Ar ôl ystyried yn ofalus y wybodaeth a ddarparwyd, nid oes gennym unrhyw wrthwynebiad i'r datblygiad arfaethedig o ran yr henebion cofrestredig na'r parciau a'r gerddi hanesyddol cofrestredig a restrwyd yn ein hasesiad o'r cais isod. Nodir polisi cenedlaethol a swyddogaeth CADW yng nghyd-destun cynllunio yn Atodiad A.

Asesiad

Henebion Cofrestredig

CN413 Chwarel Diffwys

CN414 Chwarel Rhiwbach, System Tramffordd ac Inclein CN422 Tomennydd Chwarel yr Oakeley

CN423 Chwarel Wrysgan

CN425 Chwarel Cwmorthin, pwll, rheilffordd a nodweddion ategol ME173 Anheddiad Cytiau Crwn yng Ngelli Gonan

Safle Treftadaeth y Byd

Tirwedd Llechi Gogledd Orllewin Cymru - Ffestiniog: ei phyllau a

| | |
| --- | --- |
| | Chwareli llechi, 'dinas llechi' a Rheilffordd i Borthmadog. Gyda'r cais mae asesiad effaith treftadaeth a luniwyd gan Andrew Joseph Associates sy'n ystyried effaith y datblygiad arfaethedig ar yr asedau hanesyddol a'u lleoliadau. Daw i'r casgliad oherwydd bod band sy'n dal i sefyll yn amgylchynu'r domen ni fydd unrhyw effaith ar osodiadau'r henebion cofrestredig ac ni fydd y newidiadau i ran fach o Safle Treftadaeth y Byd yn newid y ffordd caiff ei werthfawrogi a'r effaith ar ei Werth Rhyngwladol Eithriadol. Rydym yn cytuno â'r casgliad hwn. |
| Parc Cenedlaethol Eryri: | <u>Derbyniwyd ymateb ar 06/09/2022:</u><br>Dim sylwadau. |
| Ymgynghoriad Cyhoeddus: | Rhoddwyd rhybudd yn y wasg ac mewn sawl lleoliad yn agos at y safle gan roi gwybod i'r trigolion cyfagos. Mae'r cyfnod hysbysebu wedi dod i ben ac ni dderbyniwyd unrhyw sylwadau gan y cyhoedd. |

**5. Asesiad o'r ystyriaethau cynllunio perthnasol**

**Egwyddor y Datblygiad**

5.1 Seiliwyd yr egwyddor o weithio tomen lechi fel man mwyngloddio mwynau eilaidd ar bolisi MWYN 3 y CDLl ar y Cyd sy'n cefnogi datblygiadau o'r fath i gynnal banc tir yr ardal lle gellir dangos bod y bwriad yn cydymffurfio â'r meini prawf a ganlyn;

*1. Nid oes unrhyw niwed annerbyniol i fwynderau na iechyd trigolion lleol o ran yr effaith weledol, lefelau llwch, sŵn, dirgrynu, a golau o ganlyniad i'r gwaith ei hun a'r symudiadau traffig a geir yn ei sgil;*

*2. Mae yna fyffer addas rhwng datblygiadau mwynau a datblygiadau sensitif;*

*3. Nid oes niwed annerbyniol i sefydlogrwydd a chynhaliaeth tir cyfagos;*

*4. Mae'r datblygiad wedi'i sgrinio a'i dirweddu mewn modd sensitif;*

*5. Ni fydd y datblygiad yn cael effaith andwyol sylweddol ar safleoedd o bwysigrwydd rhyngwladol, cenedlaethol, rhanbarthol neu leol o ran yr amgylchedd, cadwraeth natur, y dirwedd ac /neu dreftadaeth;*

*6. Nid yw'r cynnig yn sterileiddio neu fel arall yn atal gweithio dyddodion mwynau eraill o bwys;*

*7. Nid oes niwed annerbyniol i ddraeniad dŵr daear ac adnoddau dŵr;*

*8. Mae'r cynnig yn sicrhau y manteisir i'r eithaf ar ddefnydd posib yr adnodd ac y caiff unrhyw wastraff sy'n deillio o'r mwyngloddio ei waredu'n foddhaol;*

*9. Pan fo ffrwydro'n rhan o'r cynnig, mae'r bwriad yn cynnwys cynllun ffrwydro i ddangos y gellir ei reoli i fodloni'r amodau y manylir arnynt yn Nodyn Cyngor Technegol Mwynau MTAN (Cymru) 1: Agregau, neu unrhyw ddiwygiadau;*

*10. Mae'r bwriad yn cynnwys cynllun ôl-ddefnydd ar gyfer y safle a manylion y gwaith adfer ac ôl-ofal sy'n ofynnol er mwyn cyflawni hynny yn unol â Pholisi MWYN 9;*

*11. Pan fo'n ymarferol yn economaidd, dylid cludo gwastraff neu gynnyrch mwynau ar y rheilffyrdd neu ar ddŵr.*

5.2 Polisi Mwynau Strategol PS 22 a Pholisi MWYN 3 o Gynllun Datblygu Lleol ar y Cyd Gwynedd ac Ynys Môn 2011 (CDLl ar y Cyd). Mae Polisi PS 22 yn datgan y bydd y Cyngor yn cyfrannu at y galw parhaol yn lleol a rhanbarthol am gyflenwad o fwynau trwy gynnal gwerth o leiaf 7 mlynedd o fanc tir o Dywod a Graean a banc tir 10 mlynedd wrth gefn o agregau cerrig mâl yn unol ag arweiniad cenedlaethol.

5.3 Mae Polisi Cynllunio Cymru - Argraffiad 11 (PCC) yn ymgorffori polisïau cynllunio Llywodraeth Cymru ar gyfer datblygiadau mwynau a amlinellwyd yn flaenorol ym Mholisi Cynllunio Mwynau Cymru (2001). Yn unol â gofyniad PCC 11, mae gan Gyngor Gwynedd fel yr Awdurdod Cynllunio Mwynau ddyletswydd i sicrhau bod adnoddau mwynau yn cael eu defnyddio mewn modd cynaliadwy, fel y gallant gyfrannu'n briodol at ofynion deunyddiau adeiladu'r ardal. Dyma'r prif egwyddorion a nodir yn adran 5.14 (Mwynau) PCC:

*• darparu'n gadarnhaol ar gyfer diogelu a gweithio adnoddau mwynau i ddiwallu anghenion cymdeithas heddiw ac yfory, gan annog defnydd effeithlon a phriodol o ddeunyddiau o safon uchel;*

*•gwarchod nodweddion amgylcheddol a diwylliannol lleoedd, gan gynnwys y rhai â phriodoleddau cynhenid megis bywyd gwyllt, tirweddau, coetiroedd hynafol a nodweddion hanesyddol, ac amddiffyn iechyd a diogelwch a llesiant cyffredinol pobl;*

*•lleihau effaith cloddio am fwynau a gweithrediadau cysylltiedig yn ystod y cyfnod gweithio trwy sicrhau bod unrhyw effaith ar nodweddion amgylcheddol perthnasol a achosir gan gloddio am fwynau a chludo mwynau, er enghraifft, ansawdd yr aer a seinwedd, o fewn y terfynau derbyniol; ac*

*•adfer y tir i safon uchel fel nad yw'n dirywio i gyflwr diffaith a dod â manteision gwirioneddol i gymunedau a/neu fywyd gwyllt, gan gynnwys ôl-ddefnyddiau buddiol neu gyfleoedd i wella bioamrywiaeth a'r amgylchedd hanesyddol.*

*•Ymysg amcanion eraill, mae Polisi Cynllunio Cymru yn cydnabod bod gweithio mwynau yn wahanol i ffurfiau eraill o ddatblygiad gan mai dim ond lle mae'r mwyn i'w gael y gellir ei gloddio ac mae'r datblygiad yn un trosiannol ac ni ellir ei ystyried fel defnydd tir parhaol er y gall y gwaith ddigwydd dros gyfnod hir o amser.*

5.4 Mae Adran 5.14.12 o Bolisi Cynllunio Cymru yn mynd rhagddo i gydnabod a chefnogi defnyddio gwastraff mwynau wedi ei ailgylchu:

*"Dylai cyfraniad deunyddiau gwastraff eildro ac agregau eilaidd gael ei ystyried lle gallant gael eu defnyddio'n foddhaol ac yn ymarferol yn lle prif fwynau o dir ..."*

5.5 Mae Cyngor Gwynedd, ar y cyd â holl Awdurdodau Cymru wedi ardystio'r Datganiad Technegol Rhanbarthol (RTS) a gynhyrchwyd gan Weithgor Agregau Rhanbarthol Gogledd Cymru

(NWRAWP). Paratowyd y datganiad yn unol â darpariaethau Polisi Cynllunio Mwynau (Cymru) a Nodyn Cyngor Technegol (Cymru) 1: Agregau (MTAN1), i osod amcan cyffredinol i sicrhau cyflenwad o agregau y mae modd ei reoli'n gynaliadwy; *"... fel ein bod yn taro'r balans gorau rhwng ystyriaethau amgylcheddol, economaidd a chymdeithasol, gan hefyd sicrhau bod effeithiau unrhyw waith cloddio angenrheidiol ar yr amgylchedd a mwynderau yn cael eu cadw i lefel sy'n osgoi peri niwed amlwg i fuddiannau cydnabyddedig o bwys".*

5.6 Prif ddiben y Datganiad Technegol Rhanbarthol yw amlinellu'r strategaeth ar gyfer darparu'r agregau yn rhanbarth gogledd Cymru. Mae adolygiad RTS yn datgan; "Yng ngogledd Cymru mae llechi mâl, ddaw un ai o wastraff llechi (fel isgynnyrch cynhyrchu deunyddiau toi) neu a gloddiwyd yn benodol i'w ddefnyddio fel agregau sylfaenol, yn nodwedd sylweddol ym mhatrwm cyffredinol cyflenwi yn arbennig yng Ngwynedd. Gyda chyflwyniad yr ardoll agregau yn 2002, bu cynnydd yn y defnydd o wastraff llechi yn lle cronfeydd maen caled crai.

5.7 Fel a nodwyd yn flaenorol, mae'r caniatadau presennol i weithio tomennydd y Ffridd a rhan ddeheuol Bryntirion wedi dihysbyddu'r hyn oedd wrth gefn ac mae angen cyflenwad ychwanegol i fwydo'r gwaith mwynau. Mae defnyddio gwastraff llechi yn adnodd gwerthfawr y gellir ei ddefnyddio fel ffynhonnell agregau amgen sy'n lleihau'r pwysau ar y prif adnoddau mwynau.

5.8 Yn amodol ar ystyried yr holl ystyriaethau cynllunio materol eraill, ystyrir bod egwyddor o ddatblygu a gweithio gweddill tomen lechi Bryntirion yn cydymffurfio â gofynion Polisi Mwynau Strategol PS 22 a Pholisi MWYN 3 o Gynllun Datblygu Lleol ar y Cyd Gwynedd a Môn 2011 - 2026 gan uchafu potensial yr adnodd mwynau.

5.9 Yn ogystal â'r egwyddor o ran yr angen am y datblygiad, mae'r materion cynllunio hanfodol yn yr achos hwn yn cael sylw yn y penodau isod.

**Mwynderau Gweledol a'r Dirwedd**

5.10 Mae Chwarel Lechi Ffestiniog yn ymestyn dros ardal sylweddol ar ystlys de-ddwyreiniol Moel Druman gyda thomen Bryntirion wedi'i lleoli yn y pen mwyaf gogleddol. I'r gogledd o'r chwarel mae cronfa ddŵr Llyn Ffridd y Bwlch, gyda chefn ffordd yr A470 yn rhedeg ar hyd terfyn dwyreiniol ffin Parc Cenedlaethol Eryri, sydd tua 450m i'r gogledd. Lleolir ystlys dwyreiniol tomen Bryntirion yn STyB Tirwedd Llechi Gogledd Orllewin Cymru.

5.11 Pennir arwyddocâd posib yr effeithiau ar y tirlun ac yn weledol gan gyfuniad o raddfa'r effaith bosib a sensitifrwydd lleoliad y tirlun i'r newid. Byddai'r datblygiad arfaethedig yn achosi effeithiau uniongyrchol ar dirwedd safle'r cais sydd yn anochel oherwydd natur y mwyngloddio. Fel rhan o'r dogfennau cefnogol, mae'r ymgeisydd wedi darparu Gwerthusiad o'r Dirwedd ac yn Weledol sy'n ystyried sensitifrwydd y dynodiadau tirwedd cyfagos, yr ardaloedd preswyl a'r derbynyddion hamdden.

5.12 Y derbynyddion gweledol sydd fwyaf tebygol o fod agosaf at y datblygiad yw defnyddwyr Cefnffordd yr A470, yn enwedig wrth iddynt deithio tua'r de o Fwlch y Gorddinan tuag at Blaenau Ffestiniog. Byddai cerddwyr sy'n defnyddio'r Hawl Tramwy Cyhoeddus i'r gogledd o'r safle (ar hyd Moel Dyrnogydd) ac ar hyd terfyn gogleddol Chwarel Llechwedd hefyd â golygfeydd tebyg i rai defnyddwyr ffordd. Gallai golygfeydd pellennig o'r safle fod yn bosib o ardaloedd ucheldir ym Mharc Cenedlaethol Eryri.

5.13 Mae'n bosib y byddai gan eiddo preswyl yn nhai Tal y Waenydd olygfeydd o frig tomen Bryntirion. Mae'n annhebygol y byddai gan unrhyw eiddo preswyl a leolir ymhellach i'r de yn Rhiwbryfdir olygfeydd o'r datblygiad oherwydd y tomennydd tal rhyngol a leolir ar hyd terfyn

de-ddwyreiniol Chwarel Ffestiniog. Byddai gan ymwelwyr sy'n cymryd rhan mewn gweithgareddau ar dir uwch yn Chwarel Llechwedd (Zip World) olygfeydd agored i lawr at Chwarel Ffestiniog a'r safle datblygu.

5.14 Daw'r gwerthusiad i'r casgliad; *"Byddai symud Tomen Bryntirion yn enwedig gan ei bod wedi ei lleoli ger ffordd yr A470 a'i bod i'w gweld yn erbyn ochr y bryn naturiol sy'n esgyn, a'r potensial i wneud gwelliant mwy positif ac effeithiol yn y dirwedd oddi amgylch. Yn gyffredinol, mae'r trigolion preswyl sydd â golygfeydd o'r safle wedi eu cyfyngu i res o fythynnod i'r de o fynedfa'r chwarel. Byddai'r datblygiad arfaethedig yn cael ei sgrinio yn bennaf gan y bwnd presennol a'r llystyfiant o'r eiddo hyn a rhagwelir mai dim ond mân effeithiau gweladwy a fyddai. Yn gyffredinol, yng nghyd-destun safle presennol Chwarel yr Oakeley, mae gan y tirlun a nodwyd a'r newidiadau gweledol lefel effaith gyfyngedig, ac ni fyddai gweithio'r domen a nodwyd yn golygu unrhyw lefelau effaith mawr."*

5.15 Mae Polisi MWYN 9 y Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd yn amlinellu'r gofynion o ran adfer safleoedd gweithio mwynau. Byddai'r cynllun adfer arfaethedig yn unol â'r strategaeth adfer gyffredinol bresennol ar gyfer y safle cyfan a sefydlwyd fel rhan o'r caniatâd mwynau (cyfeirnod C00M/0011/03/MW). Bydd y bwriad yn cadw llethrau allanol tomen Bryntirion gyda'r bwriad o gadw nodwedd weladwy gydnabyddadwy o dreftadaeth llechi'r safle sy'n lleihau effaith y datblygiad ar STyB. Bydd rhannau mewnol y domen wedi cael eu hechdynnu, gan adael tirffurf wedi ei ail-weithio y bwriedir ei adfer fel cyfuniad o fosaig rhostir gydag ardaloedd o brysg wedi'i reoli /cynefin coetir arloesi ac ardaloedd o laswelltir gwlyb mewn mannau is.

5.16 Daw'r planhigion a'r coed a ddewisir o darddiad lleol. Mae'r dechneg yn golygu un ai plannu ar lethrau'r tomennydd, gyda'r coed mewn sachau hesian sy'n llawn compost gwyrdd neu belenni hadau. Os yw'n anodd cael mynediad ar droed at y llethrau, defnyddir dulliau pelenni o hadau sy'n golygu cynhyrchu peli compost sydd wedi'u cymysgu â hadau sydd eisoes wedi egino. Caiff y peli hadau hyn wedyn eu taflu i lawr llethrau'r tomennydd lle byddant yn bachu i'r ddaear yn y diwedd. Byddai'r cynefinoedd wedi eu hadfer yn amodol i gyfnod ôl-ofal o bum mlynedd.

5.17 O ystyried graddfa'r datblygiad yng nghyd-destun Chwarel ehangach Ffestiniog, cadw terfyn allanol y tomennydd a'r mesurau adfer a fwriedir, mae'n annhebygol iawn y byddai gan y bwriad unrhyw effaith andwyol ar gymeriad y dirwedd nac ar fwynderau gweledol yr ardal. Felly, mae'r Awdurdod Cynllunio Mwynau yn ystyried fod y bwriad yn cydymffurfio gyda gofynion polisïau PCYFF 3, PCYFF 4 a MWYN 9 y CDLl ar y Cyd.

**Treftadaeth Ddiwylliannol**

5.18 Mae'r safle wedi'i leoli yn rhannol o fewn STyB 'Tirweddau Llechi Gogledd Cymru' ac wedi'i gynnwys yn gyfan gwbl o fewn Tirwedd o Ddiddordeb Hanesyddol Eithriadol ddynodedig Blaenau Ffestiniog. Fel y trafodwyd yn flaenorol, bydd y dull arfaethedig o weithio yn canolbwyntio ar gael gwared ar ran 'fewnol' tomen Bryntirion gyda'r llethrau 'tu allan' yn cael eu cadw. Byddai cadw ardal amgylchynol a sefydlog y domen yn sicrhau mai dibwys fyddai effeithiau'r datblygiad ar werth cyffredinol eithriadol STyB.

5.19 Y tu hwnt i ffin safle'r cais mae nifer o asedau treftadaeth dynodedig sef Henebion Cofrestredig (SAM) ac Adeiladau Rhestredig (LB) yn bennaf sy'n gysylltiedig â'r diwydiant chwareli. O ystyried y topograffi o amgylch y safle a'r pellteroedd sy'n gwahanu'r dynodiadau, gellir ystyried

na fydd unrhyw effeithiau uniongyrchol nac anuniongyrchol sylweddol ar asedau treftadaeth dynodedig yn yr ardal.

5.20 Ymgynghorwyd â CADW ac Ymddiriedolaeth Cynllunio Archeolegol Gwynedd ar fanylion y cais a chytunwyd â'r asesiad hwn. Ystyrir felly bod y datblygiad yn cydymffurfio â pholisïau PS 20, AT 1 ac AT 3

**Mwynderau cyffredinol a phreswyl**

5.21 Mae Polisi MWYN 3 y CDLl ar y Cyd yn datgan y bydd estyniadau i safleoedd mwynau presennol yn dderbyniol cyn belled nad oes unrhyw niwed annerbyniol i fwynderau nac iechyd trigolion lleol o ran yr effaith weledol, lefelau llwch, sŵn, dirgrynu a golau o ganlyniad i'r gwaith ei hun neu'r symudiadau traffig sy'n deillio o hynny. Caiff yr angen hwn i sicrhau nad yw cynigion datblygu yn effeithio ar fwynderau trigolion ei orfodi ym mhwynt 7 o bolisi PCYFF 2 sy'n nodi: *"Iechyd, diogelwch neu fwynderau meddianwyr eiddo lleol, defnyddiau tir neu eiddo arall neu nodweddion yr ardal leol oherwydd mwy o weithgareddau, aflonyddwch, dirgryniad, sŵn, llwch, mygdarth, sbwriel, draeniau, llygredd golau, neu ffurfiau eraill o lygredd neu aflonyddwch;"*

5.22 Mae NCTM 1 Cymru; Agregau yn cydnabod y ceir gwrthdaro'n aml rhwng gweithfeydd mwynau a defnyddiau tir eraill, ac felly mae wedi sefydlu'r egwyddor o barthau byffer o amgylch gweithfeydd mwynau sydd â chaniatâd a gweithfeydd echdynnu mwynau dynodedig. Diben y parth byffer yw gwarchod defnyddiau tir sy'n fwyaf sensitif i effaith gweithfeydd mwynau, drwy sefydlu pellter gwahanu. Mae NCTM 1 hefyd yn argymell y dylid cael pellter o 200 metr o leiaf ar gyfer chwareli creigiau caled, ac y dylai Cynlluniau Datblygu ddangos ffin y parth byffer ar gyfer pob gwaith mwynau. Mae parth byffer o 200 metr wedi'i sefydlu o amgylch cyrion Chwarel y Penrhyn yn y CDLl ar y Cyd sy'n cynnwys eiddo preswyl, ac yng nghyswllt y bwriad i weithio'r dyddodion gwaith mwynau dylid nodi bod un eiddo preswyl (ym mherchnogaeth y chwarel) o fewn 100m i'r ardal waith. Mae eiddo preswyl eraill sydd wedi'u lleoli yn nhai Tal y Waenydd tua 290m i ffwrdd o ffin y cais.

5.23 Mae'r bwriad yn debyg o ran natur y cais i'r math o weithgaredd sydd wedi'i weithredu ar y safle ers blynyddoedd lawer ac sydd wedi bod yn destun rheolaethau amgylcheddol trwy amodau cynllunio neu drwyddedau a gyflwynwyd o dan gylch gwaith arbenigol CNC ac Uned Gwarchod y Cyhoedd Cyngor Gwynedd. Prin iawn yw'r achosion o gwyno sy'n ymwneud â gweithrediadau presennol o gael gwared ar y dyddodion gwaith mwynau neu weithrediad peiriannau yn y gwaith prosesu.

5.24 Yn unol â'r dulliau gweithio cyfredol, bydd y deunydd yn cael ei dynnu o'r domen trwy ddefnyddio turiwr â thrac a'i fwydo wedyn i mewn i wasgydd symudol i gynhyrchu cynhyrchion 40mm a 20mm. Yna, bydd y deunydd mâl 13mm i lwch yn cael ei fwydo i hopran a'i gludo i'w sychu a'i falu yn y gwaith ar gludfelt. O fewn yr adeilad, caiff y gwastraff llechi ei falu a'i sgrinio gyda chyfran o'r deunydd wedi'i brosesu â haen o bigment lliw a/neu bolymer. Mae cynhyrchion gorffenedig naill ai'n cael eu llwytho'n uniongyrchol i danciau powdr neu eu bagio a'u storio cyn eu hanfon ar y ffordd.

5.25 Mae'r Asesiad Sŵn a gyflwynwyd gyda'r cais yn nodi bod arolwg cadarn wedi'i gynnal yn nhai Tal y Waenydd yn ystod gweithrediadau arferol ar y safle. Mae'r arolwg hwn yn cadarnhau bod y lefelau sain o weithrediadau sefydledig ar y safle o fewn terfynau a ganiateir/amodol o 50dB LAeq, 1 awr, a disgwylir i'r gweithrediadau arfaethedig aros o fewn y lefelau sŵn derbyniol hyn. Nododd Uned Gwarchod y Cyhoedd Cyngor Gwynedd nad oes unrhyw wybodaeth am y lefelau

sŵn arfaethedig wedi'u cynnwys yn yr asesiad, felly, maent yn dadlau'r honiad y gellir datgan yn bendant na fydd unrhyw effaith niweidiol yn sgil sŵn sy'n cael ei gynhyrchu. Fodd bynnag, maent wedi argymell defnyddio amodau sŵn ar gyfer caniatâd cynllunio presennol i'r datblygiad arfaethedig ac nid ydynt yn gwrthwynebu'r cynigion. O ystyried bod y bwriad yn y bôn yn barhad o'r gweithrediadau presennol (er ei fod fymryn mwy i'r gogledd) a'r amodau a argymhellir gan Uned Gwarchod y Cyhoedd, gall yr Awdurdod fod yn eithaf sicr na fyddai'r datblygiad yn sylweddol wahanol i weithrediadau presennol o ran effeithiau sŵn.

5.26 Ystyrir y bydd yr amodau canlynol yn berthnasol ar gyfer rheoli sŵn;

- Cyfyngu terfynau sŵn i LAeq (1 awr) = 50 dB, wedi ei fesur mewn maes rhydd mewn unrhyw eiddo preswyl yn Nhal y Waenydd rhwng yr oriau 07:00 – 19:00, o ddydd Llun i ddydd Gwener. Wedi'i gyfyngu i LAeq (5 munud) 40dB ar unrhyw adeg arall.
- Bydd y modd ymarferol gorau a/neu larymau gwrthdroi 'sŵn gwyn' yn cael eu gosod ar beiriannau symudol a cherbydau a ddefnyddir ar y safle.
- Arolygon monitro sŵn arferol bob blwyddyn. Ni ofynnir am arolygon ychwanegol ac eithrio ar ôl derbyn cwyn ffurfiol gan breswylydd/breswylwyr lleol.
- Bydd gweithrediadau ar gyfer cael gwared ar domen Bryntirion yn cael eu cyfyngu i 07:00 – 19:00, o ddydd Llun i ddydd Sadwrn heb unrhyw waith ar ddydd Sul a Gwyliau'r Banc na Gwyliau Cyhoeddus. Ni fydd amod yn cyfyngu ar waith cynnal a chadw hanfodol i'r gwaith a pheiriannau neu lwytho ac anfon deunydd wedi'i brosesu.

***Mae gweithrediadau eraill ar y safle wedi'u cyfyngu drwy amodau a roddir ar ganiatadau cynllunio presennol***

5.27 Aseswyd effeithiau ansawdd aer (llwch yn benodol) ym mhennod 7 o ddogfennau ategol yr ymgeisydd. Mae'r asesiad hwn yn cynnwys adolygiad gwaelodlin, effeithiau posibl sy'n deillio o ddyddodiad llwch, effeithiau posibl llwch a gludir yn yr awyr ac adolygu mesurau rheoli llwch presennol ar y safle.

5.28 Mae Uned Gwarchod y Cyhoedd wedi darparu sylwadau yn nodi nad oes gwrthwynebiad i'r bwriad o ran ansawdd aer na llwch ac y dylid amodi'r mesurau lliniaru a ddarperir ym mharagraffau 7.45 a 7.46 os yw'r Awdurdod yn bwriadu caniatáu'r cais. Mae’r mesurau lliniaru gweithredol yn cynnwys:

• gollwng llwythi o'r uchder lleiaf posib wrth ddadlwytho deunyddiau.

• diogelu deunydd rhag dod i gysylltiad â'r gwynt lle bo hynny'n bosibl (er enghraifft gadael tu allan i Domen Bryntirion yn ei le).

• lleihau pellter cludo deunydd ar y safle lle bo hynny'n bosibl.

• defnyddio chwistrellau dŵr i wlychu arwynebau ffordd gludo yn ystod tywydd sych.

• cyfyngu ar gyflymder cerbydau ar y safle gyda therfyn cyflymder o 10mya.

• atal llwch drwy chwistrellu'r deunydd sydd i'w falu.

• amgáu y peiriannau (lle bo hynny'n bosibl); a

• defnyddio chwistrellau dŵr i wlychu arwynebau deunyddiau yn ystod tywydd sych.

5.29 Bydd mesurau lliniaru eraill yn cynnwys;

• monitro rhagolygon y tywydd yn rheolaidd er mwyn llywio gofynion lliniaru posibl e.e., symud gweithfannau, yr angen i leddfu gyda dŵr, rhoi'r gorau i weithgareddau.

• monitro tywydd presennol, yn enwedig cyfeiriad y gwynt; a

• monitro gweledol ar gyfer llwch a gludir yn yr awyr, neu ffynonellau llwch sy'n dod i'r amlwg (e.e. ffordd gludo yn sychu).

5.30 Nododd y cyngor cymuned bryderon ynghylch digwyddiadau blaenorol o arogleuon yn deillio o'r gwaith mwynau a'r llwch. Mae'r gwaith mwynau yn destun caniatâd cynllunio ar wahân ac ni fyddai'r datblygiad arfaethedig i ryddhau deunydd ychwanegol o'r domen yn golygu unrhyw newid yn ei weithrediadau sydd eisoes wedi'i gyfyngu gan amodau/trwyddedau. Bydd unrhyw fater a chwynion sy'n ymwneud â'r gwaith mwynau yn cael eu trafod gyda'r gweithredwr yn ystod ymweliadau monitro â'r safle.

5.31 Rhoddodd Network Rail sylwadau yn gwrthwynebu'r bwriad oherwydd diffyg gwybodaeth yn ymwneud â rheoli llwch a'i effeithiau ar siafftiau aer y twnnel. Fodd bynnag, fel y trafodwyd uchod, mae'r ymgeisydd wedi darparu gwybodaeth drylwyr am reoli llwch ac mae Uned Gwarchod y Cyhoedd wedi argymell amodau priodol (mesurau lliniaru) i leihau unrhyw effaith ar ansawdd aer.

5.32 O ystyried y pellter gwahanu, a'r dystiolaeth i ddangos bod y safle eisoes yn gweithredu heb niwed i amwynder, o dan delerau amodau cynllunio a/neu drwyddedau amgylcheddol, ystyrir bod y cynnig yn cydymffurfio â pholisïau PCYFF 2, MWYN 3 a MWYN 5 y CDLl.

**Materion Traffig, Hawliau Tramwy Cyhoeddus a Thir Comin**

5.33 Nid yw'r cynnig yn cynnwys bwriad i gynyddu symudiadau HGV o'r safle a byddai'n rhyddhau'r mwynau sydd wrth gefn yn unol â'r amodau presennol ar gyfer Chwarel Ffestiniog sy'n cyfyngu ar yr allbwn i 9 llwyth fesul diwrnod gwaith a 2 lwyth ar ddydd Sadwrn, dydd Sul a Gwyliau'r Banc/Gwyliau Cyhoeddus.

5.34 Ni chadarnhaodd Asiantaeth Cefnffyrdd Gogledd a Chanolbarth Cymru (NMWTRA) ac Uned Drafnidiaeth Cyngor Gwynedd unrhyw gyfarwyddyd/gwrthwynebiad i'r cynnig. Ystyrir na fyddai'r datblygiad arfaethedig yn cael unrhyw effaith andwyol ar y rhwydwaith priffyrdd cyhoeddus a byddai'n cydymffurfio â gofynion polisi TRA 4 y CDLl.

**Hydroleg a Hydroddaeareg**

5.35 Fel y nodwyd yn flaenorol, mae tomen Bryntirion o fewn cyfadeiladau chwarel Ffestiniog sy'n ehangu dros ardal sylweddol ar ochr dde-ddwyreiniol Moel Dryman ac Allt Fawr. Mae safle'r cais wedi'i ddynodi o fewn Parth Llifogydd 'A' ar Fapiau Cyngor Datblygu Llywodraeth Cymru lle nad oes llawer o risg o lifogydd afonydd/afonol.

5.36 Mae Pennod 8 o'r dogfennau ategol yn darparu asesiad helaeth o'r amodau hydrolegol presennol ar y safle a sut y bydd y bwriad yn effeithio ar yr amodau hyn. Ar hyn o bryd, mae unrhyw ddŵr wyneb sy'n deillio o wlybaniaeth yn cael ei gasglu, ei setlo a'i ailgylchu drwy'r system rhyddhau yn y lleoliad a ble mae'r safle'n draenio i mewn i wagle chwarel Oakeley gerllaw iddo setlo cyn ei ryddhau i afon Barlwyd o dan ddarpariaethau caniatâd rhyddhau, sy'n cynnwys cyfyngiad ar solid mewn daliant. Mae cydymffurfio â'r cyfyngiad hwn yn cael ei fonitro'n barhaus yn unol â System Rheoli Amgylcheddol y gweithredwr ac ni fu unrhyw sylwadau na phryderon yn ymwneud â draenio na pherygl llifogydd mewn ymateb i ymgynghoriad â Cyfoeth Naturiol Cymru nac Uned Perygl Llifogydd a Draenio Tir Gwynedd.

5.37 Mae Network Rail wedi gwrthwynebu ynghylch sefydlogrwydd tir a dŵr ffo mewn perthynas â thwnnel Ffestiniog a'r rheilffordd. Mae'r gwrthwynebiadau a gyflwynwyd yn sôn am y materion isod;

*• Dylai'r cais ddangos sut y bydd sefydlogrwydd y domen a'r cyffiniau yn cael ei gynnal yn ystod y gwaith ac asesu effaith newidiadau mewn llwytho arwyneb i'r tir islaw ac asedau Network Rail. I gyd yn unol â deddfwriaeth, codau ymarfer ac ati. Mae asesiad o'r fath wedi'i gwblhau a'i gyflwyno'n rhannol gyda'r ymgynghoriad, fodd bynnag, gofynnwn am yr adroddiad cyfan i seilio barn arno nid y darn a gyflwynwyd.*

*• Dylai'r cais ddangos sut y bwriedir ffurfio'r tirffurf gorffenedig a sut y dylid cynnal sefydlogrwydd drwyddi draw. Nid oes disgrifiad o'r fath yn y cais.*

*• Dylai'r cais ddangos ymhellach sut y bydd dŵr ffo wyneb yn cael ei reoli ar y safle, tra bo'r gwaith ar y gweill, ac ar ôl ei adfer, gan y deellir bod bwriad i ganiatáu i ddŵr lifo i'r pwll chwarel segur sydd hefyd yn cael ei fwydo drwy gysylltiad â gweithfeydd mwyngloddiau cyfagos cyn cael caniatâd i ollwng trwy geuffordd tuag at y rheilffordd. Bydd angen archwilio'r isadeiledd y dibynnir arno a'i gynnal yn ystod y gwaith ac mae yn angenrheidiol i amddiffyn isadeiledd Network Rail rhag ansefydlogrwydd a llifogydd. Mae tystiolaeth bod llif dŵr wyneb wedi arwain at ddŵr a llaid yn treiddio i'r twnnel gwaelodol, a dyna pam y pryder a'r sylw. Nid yw hyn wedi cael sylw penodol yn y cais gyda'r cynsail bod y gweithrediad fel y presennol heb gydnabod y problemau blaenorol gyda dŵr wyneb yn mynd i mewn i'r twnnel trwy'r siafftiau aer.*

*• Mae'r ymgynghoriad yn nodi bod dŵr wyneb eisoes yn llifo o dan y domen bresennol, dylai'r cais ddangos sut y dylid rheoli hyn i atal effaith ar isadeiledd a sefydlogrwydd asedau Network Rail. Nid yw hyn yn cael sylw yn y cais.*

*• Dylid ystyried effeithiau newid yn yr hinsawdd drwy ystyried yr holl bwyntiau bwled blaenorol. Nid oes asesiad o'r goblygiadau ar gyfer llif dŵr wyneb, capasiti'r system.*

5.38 Mae trafodaethau pellach gyda Network Rail wedi canfod bod y materion hyn yn ymwneud yn bennaf â symudiadau dŵr wyneb ac is-wyneb i mewn ac o amgylch siafft aer rhif 3, ac yna yn leinin y twnnel ac o'i gwmpas. Dioddefodd y twnnel o gwympiadau creigiau, gyda llaid a dŵr yn gwneud ei ffordd i lawr y twnnel yn ystod stormydd yn 2017 a 2019 ac mae Network Rail yn honni mai gweithrediadau yn Chwarel Ffestiniog oedd yn uniongyrchol gyfrifol am hyn.

5.39 Mae twnnel rheilffordd Ffestiniog yn gorwedd yn uniongyrchol o dan domen Bryntirion ac mae'n dyddio'n ôl i 1873-79, mae'n rhan o linell Llandudno i Flaenau Ffestiniog. Ar hyd yr wyneb uwchben y twnnel mae 3 siafft aer fertigol wedi'u gorchuddio (i atal cwymp creigiau) (pob un tua 1.83m o daldra). Er ei fod y tu allan i safle'r cais, mae siafft aer 3 o fewn 'powlen' (o oddeutu) 10m ddofn wedi'i hamgylchynu gan fwnd gwastraff llechi tua 1m o uchder oddeutu 200m i'r de-

ddwyrain o'r domen. Nid yw'r twnnel wedi ei leinio yn bennaf, gyda dim ond rhannau byr wedi'u leinio gyda bwa brics ar waliau gwastraff llechi.

5.40 Fel rhan o'r cais, darparwyd Adroddiad Llwytho Arwyneb (a baratowyd gan GWP Consultants yn ystod mis Mai 2022) (yn ogystal â phennod 8 o'r dogfennau ategol sy'n trafod hydroddaeareg). Mae'r Adroddiad Llwytho Arwyneb yn asesu symudiadau tir oherwydd effaith cael gwared ar y domen a'r newidiadau thermol. Mae'r adroddiad yn nodi mai ychydig iawn sydd wedi dad-ffurfio màs presennol y graig o amgylch y twnnel o ganlyniad i greu'r domen a dadlwytho oherwydd y byddai ei symud yn debygol o arwain at symudiad 0.9mm i fyny. Byddai symudiad o lai na 0.1mm rhwng llawr a choron twnnel Ffestiniog yn ogystal â llai na 0.1mm i'w weld ar draws Ffawt Cwm Bowydd (55m i'r dwyrain o'r twnnel) gan arwain at ddim effaith ar y twnnel. Nodir y byddai dad-osodiadau wedi'u cyfrifiannu oherwydd tynnu o'r domen yn llai na symudiad gwahaniaethol rhwng y twnnel a'r corff o fàs creigiau sy'n deillio o newidiadau thermol ar gyn lleied â 0.05°C o newid. Daw i'r casgliad mai dim ond dadleoliad elastig a achosir ar lefel twnnel sydd gan domen Bryntirion, ac nid yw'n arwain at unrhyw anffurfiad parhaol neu ildio deunydd o amgylch y twnnel. Mae hyn yn sefydlu y bydd symudiad creigiau di-nod yn deillio o dynnu'r domen yn rhannol (llai na newidiadau thermol a lleithder blynyddol). Mae hefyd yn ychwanegu bod disgwyl i'r ffurfiant creigiau o amgylch y twnnel ddirywio ymhellach oherwydd effeithiau hindreulio.

5.41 Nid yw'n glir o honiad Network Rail ynglŷn â ffynhonnell a phwynt mynediad y dŵr wyneb, y gronynnau mân a'r llaid o ystyried lleoliad y siafft aer (200m i ffwrdd o'r ardal waith arfaethedig) a'i uchder uwchben y ddaear (1.8m). Mewn ymateb, comisiynodd yr ymgeisydd 'Femorandwm Technegol' (SLR, Ebrill 2023) yn ymchwilio i'r mater o dreiddiad dŵr wyneb i'r Siafft Aer. Roedd hyn yn cynnwys taith gerdded ac arolygu'r safle a daethpwyd i'r casgliad bod y siafft aer ar waelod 'powlen' wedi'i amgylchynu gan fwnd, yn cael ei chodi 2m uwchben y ddaear gyda llif dŵr wyneb yn cael ei gyfeirio o amgylch yr ardal hon. O ystyried y wybodaeth a ddarparwyd gan yr ymgeisydd, nid oes unrhyw beth i awgrymu bod y materion hyn yn uniongyrchol o ganlyniad i'r gweithrediadau presennol a ganiateir i gael gwared ar y tomennydd llechi ac y byddai'r datblygiad arfaethedig yn cael unrhyw newid andwyol.

5.42 Gofynnodd Network Rail am drafodaethau personol pellach rhwng pob parti ar ddiwedd mis Mawrth, fodd bynnag, nid yw ceisiadau am ddyddiad y cytunwyd arno i gynnal cyfarfod ac i gael sylwadau pellach (Network Rail) ar gynnwys y memorandwm technegol wedi digwydd ac nid yw'r LPA wedi derbyn unrhyw gyfathrebu pellach gan Network Rail ers diwedd mis Ebrill.

5.43 Mewn ymateb i hyn, mae Cwnsler yr ymgeisydd wedi datgan *"bod y system draenio dŵr wyneb ar y safle yn aros yr un fath ag a gymeradwywyd o dan y caniatâd cynllunio presennol ac, o ganlyniad, dylid ymdrin â'r materion a honnir gan Network Rail yn breifat, yn hytrach na rhwystro'r system gynllunio ac oedi penderfyniad y Cais Cynllunio uchod. Rydym wedi ceisio cysylltu â Network Rail i drafod eu honiadau'n uniongyrchol ond, hyd yma, nid ydym wedi derbyn ymateb cadarn."* Fel y trafodwyd uchod, nid oes tystiolaeth i awgrymu y byddai'r datblygiad arfaethedig yn cael unrhyw effaith andwyol ar y dŵr ffo wyneb presennol ac mae'r Awdurdod Cynllunio Lleol o'r farn bod yr anghydfod hwn yn fater rhwng yr ymgeisydd a Network Rail ac yn ymwneud â gweithredu caniatâd cynllunio presennol. Mae'n bwysig nodi na fyddai rhoi caniatâd cynllunio yn cyfyngu ar allu Network Rail i fwrw ymlaen â'r mater hwn fel rhan o unrhyw anghydfod sifil.

5.44 Ni fu unrhyw sylwadau na phryderon yn ymwneud â draenio na pherygl llifogydd mewn ymateb i ymgynghoriad â Cyfoeth Naturiol Cymru nac Uned Perygl Llifogydd a Draenio Tir Gwynedd.

5.45 O ystyried y drafodaeth uchod, mae'r Awdurdod Cynllunio Mwynau o'r farn bod yr ymgeisydd wedi darparu gwybodaeth ddigonol o ran adroddiadau technegol sy'n ymwneud â bod yr arwyneb yn gallu cynnal llwyth, hydroleg/daeareg ac adfer ac nad oes unrhyw wybodaeth a ddarperir gan Network Rail i wrthbrofi digonolrwydd neu ddibynadwyedd yr adroddiadau hyn. Mae'r awdurdod wedi cysylltu â Network Rail sawl gwaith ynglŷn â'r materion hyn, gan dynnu eu sylw yn benodol at yr adroddiadau manwl a dderbyniwyd ond ni chafwyd unrhyw sylwadau ychwanegol. Ystyrir bod yr Awdurdod wedi rhoi mwy na chyfle rhesymol i Network Rail wneud sylw pellach.

5.46 Mae Polisi PCYFF 6 o CDLl yn ei gwneud yn ofynnol "Dylid cyflwyno Datganiad Cadwraeth Dŵr gyda chynigion sydd yn fwy nag 1,000 m² neu 10 uned breswyl." Fodd bynnag, ni chyflwynwyd unrhyw ddogfen o'r enw 'Datganiad Cadwraeth Dŵr', fel y nodwyd yn flaenorol, mae dogfennau ategol yr ymgeisydd yn cynnwys pennod (8) ar 'Amgylchedd Dŵr' sy'n ymdrin â'r mater hwn. Mae'r ddogfen hon yn trafod amodau hydrolegol gwaelodlin (nodweddion dyfrllyd, dŵr daear, tynnu dŵr, perygl llifogydd, dŵr wyneb ffo) ac effaith y datblygiad ar yr amodau hynny. Yn seiliedig ar y dystiolaeth a dderbyniwyd, mae'n annhebygol y bydd y datblygiad arfaethedig yn effeithio'n negyddol ar gadwraeth dŵr neu adnoddau ar y safle neu oddi arno.

5.47 Ystyrir na fyddai'r datblygiad arfaethedig yn cael unrhyw effaith niweidiol ar nodweddion hydrolegol a pherygl llifogydd ac yn cydymffurfio â gofynion Polisi Strategol PS 19 a Pholisi AMG 3, AMG 5, PCYFF 2, PCYFF 3, PCYFF 6 a MWYN 3 Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd Gwynedd a Môn 2011 - 2026.

**Materion Ecolegol a Bioamrywiaeth**

5.48 Mae'r holl ddyddodion gwaith mwynau diraddiedig a'r gwaith yng nghyfadeiladau Chwarel Ffestiniog wedi'u dynodi'n safle bywyd gwyllt lleol o 'fosaig agored cynefinoedd a rhostir' (Chwarel/Rwbel). Darparwyd sylwadau gan Uned Bioamrywiaeth Gwynedd mewn ymateb i'r ymgynghoriad gan nodi;

- Mae cofnodion o ddyfrgwn yn yr ardal gyfagos.
- Mae lleiniau creu cynefinoedd arbrofol a ddefnyddir gan Brifysgol Bangor wedi'u lleoli yn rhan ogledd-orllewinol y safle.
- Darperir adroddiad ecolegol sy'n cynnwys gwybodaeth am golli cynefinoedd a mesurau i osgoi niwed i ymlusgiaid a rhywogaethau eraill.

5.49 Gan fod dyfrgwn wedi cael eu gweld yn Llyn Ffridd y Bwlch (tua 80m i'r gogledd o'r safle), mae'r Swyddog Bioamrywiaeth yn fodlon nad yw'r cynnig yn debygol iawn o gael unrhyw effaith ar y rhywogaethau hyn. Cadarnhaodd ymateb gan yr ymgeisydd fod y lleiniau arbrofol y tu allan i'r ardal waith yn bennaf (felly byddant yn cael eu cadw) ac nad ydynt wedi cael eu defnyddio/monitro gan y Brifysgol am gryn amser. Mewn ymateb i'r wybodaeth hon, cadarnhaodd y Swyddog Bioamrywiaeth na fyddai angen adroddiad ecolegol mwyach, a dylid gosod amodau ar gyfer y materion canlynol;

- Mesurau Osgoi Rhesymol (RAM) ar gyfer ymlusgiaid.

- Cynllun Gwella Bioamrywiaeth (i gynnwys creu gwâl dyfrgwn).

- Cynllun Rheoli Adfer (i gynnwys mesurau arolygu a dileu rhywogaethau ymledol anfrodorol a ffensys prawf stoc i atal mynediad da byw i ardaloedd sydd wedi'u hadfer.

5.50 Wrth ystyried yr uchod, mae'r cynnig yn dderbyniol yn amodol ar y mesurau lliniaru priodol ac yn cydymffurfio â pholisïau AMG 5, AMG 6, PS 19 o'r CDLl ar y Cyd a NCT 5.

**Yr iaith Gymraeg**

5.57 Mae Adran 1 (a) polisi strategol PS 1 'Yr Iaith Gymraeg a'r Diwylliant Cymreig' yn nodi y bydd angen darparu Datganiad Iaith Gymraeg gyda chynnig am *"ddatblygiad manwerthu, diwydiannol neu fasnachol sy'n cyflogi mwy na 50 o weithwyr a/ neu gydag arwynebedd o 1,000 m. sg. neu fwy"*.

5.52 Mewn ymateb i'r angen hwn, mae'r ymgeisydd wedi darparu Datganiad Iaith Gymraeg. Mae Pennod 6 y datganiad yn asesu unrhyw effeithiau posib y datblygiad ar yr iaith a'r gymuned leol drwy ystyried;

- symudiad iaith a phoblogaeth posib.
- elfennau gweledol.
- ansawdd bywyd yn cynnwys isadeiledd gymunedol.
- cyflogaeth.

5.53 Daw'r datganiad i'r casgliad y bydd y cynnig i weithio tomen Bryntirion yn cynnal cyflenwad o ddeunydd i'r Gwaith Mwynau gan felly, gefnogi cadw'r gweithlu presennol. Gan na fydd y datblygiad arfaethedig yn gofyn am unrhyw weithlu ychwanegol, mae'n annhebygol o arwain at unrhyw newidiadau yng nghydbwysedd siaradwyr Cymraeg, strwythur oedran, ymfudo (y gweithlu).

5.54 Yn seiliedig ar natur y cais a'r dystiolaeth a dderbyniwyd, ni ystyrir yn debygol y byddai'r cynnig yn cael effaith negyddol ar y Gymraeg. Felly, ystyrir bod y cynnig yn cydymffurfio â pholisi PS 1 a'r canllawiau sydd wedi'u cynnwys yn y CCA Cynnal a chreu cymunedau unigryw a chynaliadwy.

**Yr economi**

5.55 Mae Nodyn Cyngor Technegol 23: Datblygiad Economaidd, yn datgan: wrth wneud penderfyniad ar geisiadau cynllunio, bydd angen i awdurdodau cynllunio lleol gadw mewn cof bod defnydd busnes traddodiadol, dosbarthiadau B1–B8, ond yn cyfrif am ran o'r gweithgaredd yn yr economi. Mae'n bwysig bod y system gynllunio yn cydnabod agwedd economaidd pob datblygiad ac yn gwneud penderfyniadau cynllunio mewn modd cynaliadwy sy'n cadw cydbwysedd rhwng ystyriaethau cymdeithasol, amgylcheddol ac economaidd. Mae'n datgan ymhellach; Dylai awdurdodau cynllunio lleol gydnabod arwyddion y farchnad a rhoi sylw i'r angen i dywys datblygiad economaidd i'r lleoliadau mwyaf addas yn hytrach na rhwystro neu atal y fath ddatblygiad.

5.56 Mae'r bwriad mae'r cais yn ymwneud ag o yn hollol hanfodol i gynnal cyflenwad o ddeunyddiau i'r gwaith mwynau. Mae naw o weithwyr llawn amser/uniongyrchol yn cael eu cyflogi gyda gweithrediadau sy'n ymwneud â gweithio'r gwaith tomennydd a mwynau sy'n helpu i gynnal nifer o swyddi/cyflogaeth cysylltiedig eraill (fel cludiant, planhigion a pheirianneg).

5.57 Mae'r cwmni'n gwneud cyfraniad uniongyrchol a sylweddol i'r economi leol a chyflogaeth uniongyrchol/anuniongyrchol o ganlyniad i weithrediadau'r chwarel. Ar ben hynny, mae cadw

gweithlu lleol yn cael effeithiau cadarnhaol ar y diwylliant ac yn fwy penodol, statws y Gymraeg yn y rhanbarth.

5.58 Felly, ystyrir y byddai'r cynnig yn cael effaith gadarnhaol ar economi'r ardal ac yn unol â pholisi PS 13 y CDLl ar y Cyd a NCT 23.

**6. Casgliad:**

6.1 Mae PCC hefyd yn annog defnyddio deunyddiau wedi'u hailgylchu ble fo'n bosib i leihau'r pwysau ar adnoddau crai. O'r herwydd, mae'r egwyddor o weithio'r domen wastraff llechi i greu stoc ar gyfer prosesu mewn gwaith mwynau presennol yn dderbyniol ac yn cael ei chefnogi gan bolisïau MWYN 3 a PS 22 y CDLl ar y Cyd yn ogystal â MTAN1.

6.2 Oherwydd y lleoliad, graddfa a'r rheolau sydd wedi'u sefydlu'n dda o ran sŵn, llwch a materion amgylcheddol, ystyrir ei bod yn annhebygol i'r datblygiad arwain at unrhyw effaith andwyol ar fwynderau gweledol a phreswyl.

6.3 Nid oes unrhyw oblygiadau archeolegol i'r gweithrediadau ar y safle a byddai cadw ardal allanol/o amgylch y domen a'r ardal sy'n dal i sefyll yn sicrhau mai dibwys fyddai effeithiau'r datblygiad ar werth cyffredinol eithriadol y STyB. Mae'r bwriad yn cydymffurfio gyda pholisïau PS 20, AT1 ac AT 4 y CDLl ar y Cyd a CCA: Safle Treftadaeth y Byd Tirwedd Llechi Gogledd Orllewin Cymru.

6.4 Mae prif faterion ecolegol y datblygiad yn ymwneud â'r RAM i ymlusgiaid, Cynllun Gwella Bioamrywiaeth a Chynllun Rheoli Adferiad fydd ag amodau fel rhan o unrhyw ganiatâd. Mae Uned Bioamrywiaeth Gwynedd a CNC wedi cadarnhau nad oes ganddynt wrthwynebiad i'r cynigion gyda'r amodau perthnasol yn eu lle. Byddai'r amodau hyn yn sicrhau bod y bwriad yn cydymffurfio â pholisi AMG 5 y CDLl ar y Cyd a NCT 5, sef nad oes effaith andwyol ar fioamrywiaeth leol.

6.5 Ni fydd y datblygiad yn arwain at gynnydd mewn symudiadau traffig ac felly ni fydd effaith ar unrhyw briffordd, na phriffordd arfaethedig. Felly, mae'r bwriad yn cydymffurfio gyda Pholisi TRA 4 y CDLl ar y Cyd.

6.6 Byddai gan y datblygiad effaith gadarnhaol fechan ar yr iaith Gymraeg trwy sicrhau a chynnal cyflogaeth yn lleol ac ystyrir bod y bwriad yn cydymffurfio â pholisi PS 1 y CDLl ar y Cyd.

6.7 Felly, mae'r datblygiad arfaethedig yn cydymffurfio â'r holl bolisïau ac ystyriaethau cynllunio perthnasol ac argymhellir y dylid cymeradwyo'r cais cynllunio gydag amodau.

**7. Argymhelliad:**

7.1 Caniatáu'r cais yn ddarostyngedig i'r amodau yn ymwneud â'r isod:

- Hyd y cyfnod gweithio 31/12/2040 a'r cyfnod adfer hyd at 31/12/2042 i gyd-fynd â thelerau'r prif ganiatâd cynllunio.
- Gweithgareddau a ganiateir a chydymffurfiaeth â'r manylion/cynlluniau a gyflwynwyd.
- Marcio ffin y safle ac ardaloedd cloddio am fwynau.
- Oriau Gweithio.
- Rheoli symudiadau cerbydau HGV o'r safle i 9 y dydd ar ddyddiau gwaith (dydd Llun - dydd Gwener), Dim mwy na 2 ar ddydd Sadwrn, dydd Sul a Gwyliau'r Banc/Gwyliau Cyhoeddus.
- Mesurau Lliniaru Llwch.
- Monitro ansawdd yr aer

- Sŵn Gweithredol - cyfyngiadau lefel sŵn.
- Arolygon monitro sŵn.
- Cyfyngu oriau gweithredu'r malwr.
- Mesurau rhesymol i osgoi ymlusgiaid.
- Cynllun Gwella Bioamrywiaeth (i gynnwys creu gwâl dyfrgwn).
- Cynllun Rheoli Adfer (i gynnwys mesurau arolygu a dileu rhywogaethau ymledol anfrodorol a ffensys atal mynediad da byw i ardaloedd sydd wedi'u hadfer).